**PWYLLGOR SAFONAU**
**5 GORFFENNAF 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gafodd ei gynnal fel cyfarfod o bell ddydd Llun 5 Gorffennaf 2021.

**YN BRESENNOL: Julia Hughes (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Gladys Healey ac Arnold Woolley

Aelodau cyfetholedig: Jonathan Duggan-Keen, Phillipa Earlam, Mark Morgan a Gill Murgatroyd

**YMDDIHEURIAD:** Y Cynghorydd Patrick Heesom

**HEFYD YN BRESENNOL:** Swyddog Monitro, Dirprwy Swyddog Monitro (eitemau 1-4 y cofnodion) a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**1. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim.

**2. COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai, yn amodol ar fân ddiwygiadau i eitemau 42 a 45 y cofnodion. Ar y sail honno, cynigiodd y Cynghorydd Arnold Woolley eu bod yn cael eu derbyn ac eiliwyd hyn gan Mark Morgan.

Aelodaeth y Pwyllgor

Cafwyd diweddariad gan y Swyddog Monitro ynglŷn â chanlyniad y broses recriwtio a dywedodd y byddai'r ddau ymgeisydd a ffefrir yn cael eu penodi ar adegau gwahanol, wedi ei hwyluso gan ymddeoliad cynnar Phillipa Earlam. Diolchodd y Cadeirydd i Phillipa am alluogi'r newid hwn ac am ei chyfraniadau gwerthfawr i'r Pwyllgor Safonau yn ystod ei chyfnod yn y swydd.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion, yn amodol ar y diwygiadau, fel cofnod cywir.

**3. GOLLYNGIADAU**

Dim.

**4. DIWYGIADAU I'R COD YMARFER AR GYFER CYNLLUNIO**

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro yr adroddiad i adolygu'r Cod Ymarfer ar gyfer Cynllunio yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor a'r Cyngor yn gynharach yn y flwyddyn. Rhoddodd drosolwg o'r newidiadau a oedd wedi eu atodi i'r adroddiad, a fyddai angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a Chyfansoddiad a'r Cyngor Llawn.

Cytunwyd ar y newidiadau canlynol er cysondeb:

- Defnyddio ‘Cadeirydd’ drwy gydol y ddogfen (yn hytrach na ‘Cadeirwr’/’Cadeiryddes’)
- Defnyddio'r un geiriad ar gyfer adrannau 5.5 a 5.8 er mwyn disgrifio Aelodau sydd ddim yn gallu cymryd rhan wrth drafod eitem yr oedd ganddynt safbwynt a bennwyd ymlaen llaw.
- Defnyddio’r teitl cywir ar gyfer y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a’r Economi) yn adrannau 11 a 12.

Ar y sail yna, cynigiodd y Cynghorydd Gladys Healey y dylid derbyn yr argymhelliad ac eiliwyd hyn gan Mark Morgan.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r newidiadau i’r Cod Ymarfer ar gyfer Cynllunio a nodwyd yn yr atodiad i’r adroddiad, ynghyd â’r newidiadau ychwanegol a godwyd gan y Pwyllgor hwn.

## 5. TROSOLWG AR GWYNION MOESEGOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro yr adroddiad rheolaidd ar nifer y cwynion moesegol yn honni toriad o’r Cod Ymddygiad a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW). Roedd y wybodaeth yn ddienw gyda chyfeirnodau wedi’u clustnodi er mwyn gwahaniaethu rhwng Cynghorau a Chynghorwyr unigol.

Cafwyd eglurhad gan y Swyddog Monitro ynglŷn â phwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor. Gan ymateb i sylwadau ynglŷn â chadeirio cyfarfodydd, roedd yn cytuno i gysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) er mwyn holi ynglŷn â’r posibilrwydd o sesiwn hyfforddi neu fideo i helpu Cadeiryddion Cynghorau Tref/Cymuned i gynnal ymddygiad yn ystod cyfarfodydd, a allai helpu i leihau nifer y cwynion.

Cynigiodd Gill Murgatroydy y dylid derbyn yr argymhelliad yn yr adroddiad, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi’r nifer a’r math o gwynion.

## 6. ADOLYGIAD Y FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL

Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Cadeirydd ynglŷn â chyfarfod y Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yr oedd hi wedi ei fynychu gyda Mark Morgan (Is-gadeirydd) a’r Swyddog Monitro. Rhannwyd adborth ganddynt ar ystod o bynciau a gafodd eu trafod yn y cyfarfod, gan gynnwys ymgynghoriad ar adolygiad Y Fframwaith Safonau Moesegol sy’n cael ei wneud gan Richard Penn ar hyn o bryd ar ran Llywodraeth Cymru (LlC).

Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai Richard Penn yn cyflwyno’i argymhellion i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Medi 2021 er mwyn galluogi newidiadau i fodel y Cod Ymddygiad fel y bydd modd ei roi ar waith erbyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022. Fe atgoffodd y Pwyllgor am y sylwadau a wnaed yn flaenorol ynglŷn â’r angen am hyblygrwydd o ran sancsiynau sydd ar gael i Banel Dyfarnu Cymru.

Cynigiodd y Cynghorydd Arnold Woolley y dylid nodi’r adroddiad ac eiliwyd hyn gan Phillipa Earlam.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi’r adroddiad ar lafar.

## 7. ADOLYGIAD A SICRWYDD YNGLŶN Â PHROTOCOL AELOD/SWYDDOG

Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Swyddog Monitro ynglŷn â chanlyniad adolygiad ysgafn pellach o’r protocol ar gyfer Aelod/Swyddog, er mwyn rhoi sicrwydd fod gweithdrefnau priodol yn eu lle i hyrwyddo parch o’r ddwy ochr rhwng swyddogion ac Aelodau etholedig.

Cynigiodd y Cynghorydd Arnold Woolley y dylid croesawu a nodi’r adroddiad ac eiliwyd hyn gan Mark Morgan.

**PENDERFYNWYD:**

Croesawu a nodi’r adroddiad ar lafar.

## 8. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i’w hystyried, gan nodi’r canlynol:

- Cynnwys Adroddiad Penn o Fframwaith Safonau Moesegol ar y rhaglen i’r dyfodol (ym mis Tachwedd o bosib)
- Cynnwys canlyniadau’r cyfarfod Cyswllt Moesegol ar y rhaglen i’r dyfodol (yn y cyfarfod ar y cyd â chynrychiolwyr o Gynghorau Tref/Cymuned ym mis Tachwedd o bosib)

Cynigiodd Phillipa Earlam y dylid derbyn y newidiadau ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi ei ddiwygio.

## 9. CYNLLUNIO’R RHAGLEN AR GYFER Y CYFARFOD CYSWLLT YNGLŶN Â MATERION MOESEGOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro yr adroddiad ar gyfer cynllunio rhaglen y cyfarfod rhwng Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau, Cadeirydd ac

Arweinydd y Cyngor Sir ac Arweinwyr y Grwpiau. Cyflwynwyd yr awgrymiadau canlynol i'w hystyried:

- Canlyniad ymweliadau Aelodau Annibynnol â chyfarfodydd y Cyngor.
- Rhoi dyletswyddau deddfwriaethol newydd ar waith yn 2022. Rhannwyd yn breifat y canllawiau drafft gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ynglŷn â'r dyletswyddau hyn (paragraff 15 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd)).
- Cefnogi'r dyletswyddau newydd, yr awgrym y dylai aelodau etholedig sy'n dychwelyd fod yn rhan o'r broses gyflwyno ar gyfer Aelodau newydd, ac y dylid cynnal sesiynau hyfforddiant ar gyfer pob grŵp gwleidyddol, gyda chefnogaeth Arweinwyr y Grwpiau.

Er nad oedd y Pwyllgor wedi derbyn adroddiad ynglŷn â chanlyniad yr holl ymweliadau â chyfarfodydd y Cyngor, roedd crynodeb o'r pwyntiau a godwyd wedi eu cynnwys yng nghofnodion cyfarfodydd blaenorol. Nododd y Cadeirydd fod cynnwys nodyn gweithredu ar bob rhaglen ffurfiol yn un o argymhellion yr adborth, ac fod hyn eisoes yn ei le.

Gan ymateb i gwestiwn gan Gill Murgatroyd, cafwyd eglurhad gan y Swyddog Monitro ar oblygiadau o ran adnoddau'r hyfforddiant a awgrymir.

Cynigiodd y Cynghorydd Gladys Healey y dylid derbyn yr argymhellion a gyflwynodd y Swyddog Monitro. Wrth eilio'r cynnig, diolchodd Phillipa Earlam i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Swyddog Monitro am eu gwaith ar y mater hwn ac am fynychu Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Cymeradwyo'r rhaglen drafft ar gyfer y Cyfarfod Cyswllt Moesegol nesaf; ac

(b) Y dylid cael cymeradwyaeth ar gyfer y rhaglen derfynol gan y Prif Swyddog (Llywodraethu) mewn ymgynghoriad ag aelodau'r cyfarfod.

## 10. AELODAU O'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6.30pm a gorffennodd am 8.10pm)

…………………………
**Cadeirydd**